**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU** | **WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd** | **General Certificate of Secondary Education**

102-109/51

**CELF A DYLUNIO TGAU**

**ARHOLIAD TERFYNOL**
**(yn werth 40% o gyfanswm y marciau)**

**YMCHWIL AC ASTUDIAETHAU PARATOADOL**
**Chwe Wythnos**
**I'w agor ym mhresenoldeb yr ymgeiswyr ar ôl Dydd Mawrth, 3 Ionawr 2006**

**PRAWF RHEOLEDIG**
**10 awr ar y mwyaf (o dan Amodau Arholiad)**
**I gychwyn ar ôl Dydd Llun, 20 Chwefror 2006**

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ychwanegol at y papur hwn bydd angen deunyddiau priodol arnoch ar gyfer yr Arholiad Terfynol.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys **themâu (Adran A)** a **thasgau (Adrannau B-E)**. Rhaid i chi ddewis **un** yn unig. Cyn gwneud eich dewis, dylech ddarllen y papur cwestiynau sawl gwaith a meddwl yn ofalus am ba thema neu dasg a fydd yn eich galluogi i gynhyrchu'ch gwaith gorau posibl. Rhaid i chi labelu eich holl waith yn eglur.

| | |
|---|---|
| Adran A | Themâu |
| Adran B | Celfyddyd Gain |
| Adran C | Dylunio Graffig |
| Adran CH | Tecstilau |
| Adran D | Dylunio Tri-dimensiwn |
| Adran DD | Ffotograffiaeth |
| Adran E | Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol |

## YMGEISWYR AR GYFER CELF A DYLUNIO

Gall ymgeiswyr ddewis **naill ai** thema **neu** dasg:

- os dewiswch **thema** gallwch ddilyn unrhyw faes astudio;
- os dewiswch **dasg**, rhaid i chi ddilyn y maes astudio sy'n briodol i'r adran honno. Er enghraifft, os dewiswch dasg o Adran CH, rhaid i chi ymdrin â'r cwestiwn trwy gyfrwng Tecstilau.

## YMGEISWYR AR GYFER MEYSYDD ASTUDIO PENODOL

Gall ymgeiswyr ddewis **naill ai** thema **neu** dasg:

- os dewiswch **thema** rhaid i chi ddilyn y maes astudio yr ydych wedi'ch cofrestru ar ei gyfer;
- os dewiswch **dasg**, rhaid i chi ddewis yr adran yr ydych wedi'ch cofrestru ar ei chyfer. Er enghraifft, os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer Celfyddyd Gain, rhaid i chi ddewis tasg o Adran B a rhaid i chi ymdrin â'r dasg trwy gyfrwng Celfyddyd Gain.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Eglurir amcanion yr arholiad o dan **Gyfarwyddiadau i Ymgeiswyr**.

Mae’r holl themâu a thasgau’n ymwneud â chelf a/neu grefft a/neu ddylunio.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad. Rhaid i’r holl waith a gyflwynwch ar gyfer yr arholiad fod yn waith a wnaethoch chi, heb gymorth neb.

**Ni** all ymgeisydd sy’n rhoi cynnig ar fwy nag un Maes Astudio gyflwyno ymateb i’r un thema neu dasg arholiad fwy nag unwaith.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

### Rhestr gyfeirio ar gyfer yr arholiad

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi eich hun a cheisiwch eu hateb mor glir â phosibl yn eich gwaith:

(i) **Ymchwil a Holi**

Yn ystod y cyfnod paratoi ac ymchwilio *cyn* gwneud eich darn terfynol o waith.

- Ydw i wedi cofnodi a dehongli arsylwadau a phrofiadau? Ydw i wedi bod yn edrych yn ofalus, gan ddefnyddio fy sgiliau cofnodi a’m dychymyg?
- Beth yw pwrpas fy ngwaith a beth rydw i’n ceisio ei gyflawni? Ydw i wedi llwyddo i gasglu a defnyddio gwybodaeth addas i’m helpu i wneud hyn? Beth rydw i wedi’i ddarganfod?

(ii) **Dadansoddi a Gwerthuso**

Yn ystod y cyfnod paratoi, ac eto *ar ôl* i chi gwblhau eich darn terfynol o waith.

- Beth rydw i wedi’i ddarganfod am y delweddau a’r pethau sy’n ymwneud â’r hyn rydw i’n ei wneud? Beth rydw i’n ei wybod am y gwahanol fathau o gelf a dylunio sydd wedi dylanwadu ar fy ngwaith?
- Beth rydw i’n ei feddwl o’m gwaith? Ydw i wedi cyfleu fy nheimladau am ansawdd yr hyn rydw i wedi bod yn ceisio ei wneud?

(iii) **Gwneud Creadigol**

*Yn ystod* yr amser rydych chi’n gweithio ar y thema neu dasg hon.

- Beth rydw i’n ei wneud a sut rydw i’n mynd ati? Sut rydw i’n archwilio a datblygu syniadau sy’n fy helpu i wneud fy ngwaith?
- Sut rydw i’n ymdrin â chyfryngau, prosesau ac adnoddau? Sut rydw i’n ymdopi ag unrhyw newidiadau y mae’n rhaid eu gwneud wrth fynd ymlaen â’r gwaith?

(iv) **Ymateb Personol**

*Yn ystod* yr amser rydych chi’n gweithio ar y thema neu dasg hon.

- Faint o’r gwaith hwn sy’n ymwneud mewn gwirionedd â’m diddordebau a’m hoffterau mewn celf a dylunio?
- Sut mae hyn yn cymharu ac yn cysylltu â gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr rydw i wedi dod ar eu traws yn ystod fy astudiaethau?

**Sylwer**

Rhaid cydnabod unrhyw ddeunydd o ffynonellau eilaidd a dylech ei ddefnyddio’n feddylgar a chreadigol. Ni fydd copïo delweddau ffotograffig neu lwytho deunydd i lawr o’r Rhyngrwyd yn debygol o ennill marciau ar y rhestr gyfeirio uchod. Byddwch yn ddyfeisgar wrth ddefnyddio eich deunyddiau ategol.

Os cynhyrchwch waith ysgrifenedig yn yr arholiad hwn, cofiwch y dylech sillafu, atalnodi a defnyddio rheolau gramadeg yn gywir.

**THEMÂU** **ADRAN A**

*Man cychwyn ar gyfer ymchwilio i'ch syniadau eich hun a syniadau artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill yw thema. Os dewiswch un o'r themâu ar y dudalen hon, dylech ymchwilio iddi, arbrofi a gwneud eich cyflwyniad terfynol mewn unrhyw faes celf, crefft a dylunio. Gallech wneud hyn trwy gelfyddyd gain, dylunio graffig, tecstilau, dylunio tri-dimensiwn, ffotograffiaeth neu astudiaethau beirniadol a chyd-destunol. Cewch ddewis gweithio ag un dechneg a/neu gyfrwng yn unig, neu cewch ddefnyddio cyfuniad o wahanol ddulliau a chyfryngau. Pa lwybr bynnag a ddewiswch, gwnewch yn siwr ei fod yn gweddu i'r hyn yr ydych chi am ei wneud ac y gallwch ddefnyddio'r dechneg/technegau a/neu gyfrwng/cyfryngau yn dda.*

A1. Arwynebau.

A2. Darluniaidd *(Picturesque)*.

A3. Chwaraeon.

A4. Addoli.

A5. Dinistr.



**Trosodd.**

**TASGAU**

*Mae tasg yn disgrifio'r hyn mae gofyn i chi ei wneud. Mae'n cynnig canolbwynt arbennig ar gyfer eich syniadau chi a syniadau artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill. Gall tasg osod rhai cyfyngiadau, yn enwedig pan fyddwch chi'n dilyn briff dylunio. Os dewiswch un o'r tasgau canlynol, dylech ymchwilio iddi, arbrofi a gwneud eich cyflwyniad terfynol mewn **un** o'r meysydd celf, crefft a dylunio a ganlyn: celfyddyd gain, dylunio graffig, tecstilau, dylunio tri-dimensiwn, ffotograffiaeth neu astudiaethau beirniadol a chyd-destunol.*

**Celfyddyd Gain** **ADRAN B**

*Os dewiswch un o'r tasgau canlynol, dylai'r gwaith a gyflwynwch ddangos eich bod chi wedi ystyried gwahanol gyfansoddiadau, safbwyntiau ac elfennau megis ffurf, adeiladwaith, cyfrannedd, llinell, tôn, gwead, lliw, graddfa a phatrwm. Dylai eich gwaith gynnwys cofnodi wedi'i seilio ar brofiad uniongyrchol, arsylwadau a/neu ddychymyg. Cewch ddefnyddio unrhyw gyfrwng priodol neu gyfuniad o gyfryngau priodol gan gynnwys ffilm. Dylech amlygu medrau dylunio a chyfansoddi trwy wneud gwaith paratoi a fydd, o'i drefnu, yn arwain at ddatganiad personol creadigol.*

B1. Gwnewch astudiaeth neu gyfres o astudiaethau yn dangos rhywun wedi'i wisgo mewn costiwm neu lifrai *(uniform)*.

B2. Gwnewch gerflun, paentiad neu unrhyw waith arall sy'n seiliedig ar astudio pryfed.

B3. Ymchwiliwch i'r ffyrdd y mae artistiaid wedi defnyddio eu cymuned eu hun yn ysbrydoliaeth ar gyfer eu syniadau a chynhyrchwch ddarn o waith sy'n seiliedig ar yr ardal lle'r ydych chi'n byw.

B4. Gwnewch baentiad, print, cerflun neu unrhyw waith arall sy'n seiliedig ar astudio siapiau caeau.

B5. Cynhyrchwch waith sy'n seiliedig ar astudiaeth o eitemau y teimlwch y byddant cyn bo hir yn diflannu o ddefnydd pob dydd ar eu ffurf bresennol.

**Dylunio Graffig** **ADRAN C**

*Os dewiswch un o'r tasgau canlynol, byddwch chi'n cyfleu eich syniadau trwy lythrennu, teip, gwneud printiau, dylunio masnachol a/neu ddarlunio. Dylech roi ystyriaeth ofalus i'ch dewis o gyfryngau, gan gynnwys, os yn briodol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).*

C1. Mae cwmni ffonau symudol newydd o'r enw 'Clebran' *('Chatterbox')*, sy'n ceisio denu'r farchnad bobl ifanc yn eu harddegau, wedi gofyn i chi ddylunio ei logo a fydd yn cael ei gynnwys gyda slogan neu gipair *(catchphrase)*. Dylech gyflwyno eich gwaith terfynol ar fformat tirlun A3.

C2. Dyluniwch a darluniwch glawr blaen i'r *Radio Times* wedi'i seilio ar gyfres deledu newydd am 'Wyliau'. Rhaid i chi gynnwys y pennawd *Radio Times*.

C3. Dyluniwch a gwnewch becyn, sy'n cyfuno delwedd a thestun, ar gyfer teisen ddathlu i gwmni o'r enw 'Achlysuron Arbennig'. Maint y deisen gron yw 30cm × 10cm.

C4. Dyluniwch a gwnewch gyfres o bedwar darlun, 20cm wrth 10cm, wedi'u seilio ar y pedwar tymor, sy'n cynnwys y testun priodol: Hydref, Gwanwyn, Haf, Gaeaf.

C5. Dyluniwch a gwnewch gyfres o bedwar stamp coffaol *(commemorative)* sy'n cynrychioli diwylliannau o Ewrop, dau gyfandir America, Affrica ac Asia.

**Tecstilau** **ADRAN CH**

*Os dewiswch un o'r tasgau canlynol, byddwch yn ymdrin â gwahanol agweddau ar decstilau megis adeiledd, addurn a dulliau gwneud. Ym mhob cam o'ch gwaith dylech ystyried sut i ddylunio datrysiad creadigol i dasg arbennig, gan ymchwilio i lawer o ddewisiadau posibl a defnyddio technegau a defnyddiau priodol.*

CH1. Dyluniwch ac addurnwch un metr sgwâr o ffabrig wedi'i seilio ar ddelweddau microsgopig o firysau ac afiechydon.

CH2. Ymchwiliwch i fagiau plastig ac ailgylchwch nhw i greu eitem i'r cartref neu rywbeth i'w wisgo.

CH3. Defnyddiwch gyfuniad o ddefnyddiau i ddylunio a gwneud esgid anarferol o fawr a llawn dychymyg wedi'i seilio ar anifeiliaid du a gwyn.

CH4. Astudiwch draciau a/neu olion sy'n cael eu gadael gan bobl, anifeiliaid neu gerbydau ac yna crëwch ddarn o decstil.

CH5. Dyluniwch ac addurnwch groglun ar gyfer caffi modern, ffasiynol, wedi'i seilio ar astudiaeth o baentiadau ogof.



**Trosodd.**

**Dylunio Tri-dimensiwn** **ADRAN D**

*Os dewiswch un o'r tasgau canlynol, bydd angen i chi gynhyrchu datrysiad tri-dimensiwn. Dylech amlygu medrau dylunio a gwneud trwy eich defnydd o ddefnyddiau a thechnegau. Mae'r tasgau'n gofyn i chi weithio mewn ffurf dri-dimensiwn at ddiben swyddogaethol megis gemwaith neu waith ceramig, neu gynhyrchu dyluniadau i'r llwyfan. Os bydd maint eich gwrthrych terfynol yn broblem, dylech wneud model a dangos y raddfa.*

D1. Addurniad *(ornamentation)* a gwaith addurno *(decoration)* sy'n penderfynu a yw gwrthrych neu lestr yn weledol dderbyniol. Gwnewch eich ymchwil eich hun i ffurfiau o'r natur hon ac ewch ymlaen i ddylunio a gwneud ffurf swyddogaethol sydd wedi'i haddurno'n gyfoethog.

D2. Ystyriwch siapiau sy'n cydgloi *(interlock)* megis y rheiny mewn jig-so neu o fewn cloc neu wats (olwynion cocos *(cogs)* a liferi). Mewn ymateb i'ch ymchwil, dyluniwch a gwnewch ffurf 3D sy'n rhannu'r nodweddion hyn.

D3. Byddai Ciwbyddion megis Picasso yn portreadu pennau ac wynebau o wahanol safbwyntiau yn yr un llun. Defnyddiwch yr egwyddor hon i ddylanwadu ar eich dylunio a gwnewch ffurf 3D o wrthrych cyfarwydd neu o ben rhywun.

D4. Bydd teithio i'r gofod yn mynd â ni i leoedd pell yng nghysawd yr haul *(solar system)*. Meddyliwch am y dechnoleg a fydd yn gwneud hyn yn bosibl yn ogystal â datblygiadau eraill dynolryw *(humankind)* yn ystod y ganrif ddiwethaf. Gwnewch ac addurnwch obelisg i roi gwybod i wareiddiadau *(civilizations)* eraill am ein presenoldeb, y gellir ei adael ar blaned neu asteroid pell.

D5. Gall pethau tryloyw ddatgelu nodweddion prydferth, o wydr addurnol i greaduriaid cywrain. Ar sail eich darganfyddiadau, ewch ymlaen i wneud rhywbeth y mae gwerthfawrogiad llawn ohono yn dibynnu ar olau.

**Ffotograffiaeth** **ADRAN DD**

*Os dewiswch un o'r tasgau canlynol, bydd angen i chi gynhyrchu delweddau ffotograffig sy'n dangos datblygiad technegol a chreadigol. Dylech gynnwys gwybodaeth ychwanegol ar ffurf esboniadau wedi'u lluniadu, byrddau stori neu brintiau arbrofol i ategu eich cynnyrch terfynol a dylech ddangos y gwahanol ffyrdd yr ydych wedi ymateb i'ch tasg ddewisedig. Dylech roi ystyriaeth ofalus i briodweddau gweledol megis golau, tôn, gwead a chyfansoddiad yn ogystal ag i ddethol a chyflwyno'r gwaith gorffenedig. Mae gwaith ffotograffig yn cynnwys pob cyfrwng lle defnyddir lensiau, a TGCh.*

DD1. Cynhyrchwch gyfres o chwe ffotograff, gan ddefnyddio grŵp/casgliad o wrthychau o'ch dewis, sy'n dangos effaith gwahanol fathau o olau ar eich trefniant.

DD2. Cynhyrchwch gyfres o chwe phrint, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau ystafell dywyll/printio, sy'n archwilio'r syniad o lapio pethau.

DD3. Cynhyrchwch ddelwedd fawr o siâp afreolaidd, wedi'i ffurfio o gasgliad o'ch ffotograffau eich hun, sy'n cyfleu treigl amser yn neu yng nghyffiniau eich cymdogaeth neu eich amgylchedd personol.

DD4. Cynhyrchwch gyfres o chwe *montage* ffotograffig i ddarlunio Hwiangerdd/Stori Fer/Dihareb i blant.

DD5. Crëwch fwrdd stori gydag o leiaf chwe delwedd sy'n ymdrin â'r syniad o ddigwyddiad rhyfedd.

**Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol** **ADRAN E**

*Os dewiswch un o'r tasgau canlynol, dylech ymchwilio iddi trwy ddefnyddio adnoddau megis adnoddau llyfrgelloedd, llyfrau, cylchgronau, cyfnodolion, catalogau, llawlyfrau orielau ac amgueddfeydd, gwybodaeth o'r Rhyngrwyd, a chyfathrebu uniongyrchol ag artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr, a/neu ymweliadau â'u stiwdios. Dylech gynhyrchu gwaith gorffenedig sy'n cymysgu gwybodaeth ysgrifenedig, lle bo'n briodol, ag astudiaeth o gelf, crefft neu ddylunio. Os yw'r gwaith ar ffurf ysgrifenedig, atgoffir ymgeiswyr bod angen iddynt sillafu, atalnodi a defnyddio rheolau gramadeg yn gywir a chyflwyno eu gwaith yn glir. Os yw'r gwaith ar ffurf electronig, wedi'i atgynhyrchu'n ddigidol neu ar fideo, ni ddylai gymryd mwy na phum munud i'w wylio.*

E1. Gan ddefnyddio'r darluniau ar y dudalen nesaf neu waith tebyg gan artistiaid eraill, dangoswch trwy eich gwaith eich hun sut mae artistiaid wedi ymgorffori testun yn eu harlunwaith.


E2. Mae llawer o gyrff wedi gwneud defnydd o gynllun 'artist preswyl'. Gwnewch gyflwyniad gweledol i annog eich canolfan i dderbyn artist, dylunydd neu grefftwr o'ch dewis, gan amlinellu'r manteision, y lleoliad a ffynonellau ysbrydoliaeth.

E3. Ymchwiliwch i Gelfyddyd Bop y 1960au a dangoswch y ffynonellau ysbrydoliaeth y gellid eu defnyddio heddiw.


E4. Mae ffotograffwyr wedi defnyddio eu crefft i gofnodi a dogfennu'r gymdeithas sydd o'u cwmpas. Pa agweddau ar eich cymdeithas y byddech chi'n eu cofnodi o ganlyniad i'ch gwaith ymchwil a holi?

E5. Cymharwch a chyferbynnwch arddull dwy ffurf ar animeiddio, gan roi enghreifftiau trwy eich gwaith eich hun o'r arddull sydd orau gennych.

 **Trosodd.**



*'Soar y Mynydd'*, Ogwyn Davies




*'Gwyngoed, Cigfrain a Dyfyniadau'*, Ogwyn Davies

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r arlunydd Ogwyn Davies am ei ganiatâd i atgynhyrchu ei waith.